21 Mai 2021

Annwyl Riant/Ofalwr

Diolch

Ar drothwy gwyliau'r Sulgwyn, diolch yn fawr iawn i chi fel rhieni a gofalwyr am alluogi eich plant i ddychwelyd i wersi arferol yn yr Ysgol dros y chwe wythnos diwethaf.
Bu'n rhaid ynysu un flwyddyn am bum niwrnod ysgol yn ystod Ebrill, ond, ar wahân i hynny (hyd yn hyn), bu'n hanner tymor o ail-gydio brwd yn y dysgu wyneb-i-wyneb i bawb, ac asesu pwrpasol ar gyfer plant hŷn yr Ysgol.

Diwrnod HMS

Cynhelir diwrnod HMS ar **Ddydd Llun 7 Mehefin**. Rhydd hyn gyfle i staff safoni asesiadau'r arholiadau allanol ar gyfer Haf 2021, ac felly ni fydd yr Ysgol ar agor i ddisgyblion.
Bydd gwybodaeth bellach am ddiwrnodau HMS yn ystod yr hanner tymor ar ôl Sulgwyn yn cael ei rhannu gyda chi maes o law.

Adeiladau

Gyda'r MUGA, 2G a 3G yn cael defnydd trwm gydol dydd, rydym wrth ein boddau yn manteisio ar y cyfleusterau newydd Ymarfer Corff sydd bellach ar gael yn yr Ysgol.
Mae adeilad y Ffreutur a stafelloedd dysgu newydd yn cymryd siâp, ac edrychwn ymlaen yn ddisgwylgar at feddiannu'r ardal hon dros yr haf, er mwyn galluogi Kier, y contractwyr, i adnewyddu dwy ardal arall o'r Ysgol ym Medi.

Ap Bwyd

Bu'r Ysgol yn 'fochyn cwta' ar gyfer Ap newydd sbon ar gyfer archebu bwyd yn y ffreutur. Mae cannoedd o ddisgyblion (a rhieni) wedi bod yn rhan o'r cynllun peilot – yr Ysgol gyntaf yng Nghymru i weithredu yn y fath ffordd. Cafwyd ambell her ar y dechrau, ond bu'r disgyblion, chi, a staff y Ffreutur yn hynod amyneddgar wrth i ni geisio ymateb i'r sialensiau hynny. O wythnos nesaf, bydd modd i unrhyw ddisgybl yn yr Ysgol archebu cinio ar yr Ap.

Llythyr Cymwysterau Cymru i Ddysgwyr

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Dyma lythyr i ddisgyblion blynyddoedd 11-13 gan Gymwysterau Cymru yn amlinellu trefniadau pennu graddau ar gyfer eleni….. https://bit.ly/3u7IBHF

Profion LFT

Diolch i'r cannoedd ohonoch sy'n helpu ac atgoffa eich plant i gymryd y profion LFT pob Dydd Llun a phob Dydd Iau. Mae'r broses hon yn arf ychwanegol i geisio arbed lledaeniad Covid-19. Ni fydd angen cymryd y profion dros Hanner Tymor, ond oes modd i chi sicrhau bod eich plant yn ail afael yn y profion ar Ddydd Llun 7 Mehefin.

Diolch am bob cydweithrediad

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

21 May 2021

Dear Parent / Carer

Thank you

On the eve of the Whitsun holidays, thank you very much as parents and carers for enabling your children to return to normal lessons at School over the last six weeks.
One school year had to be isolated for five school days during April, but, apart from that (so far), it has been a half term of re-engagement with face-to-face learning and assessments for the School's older children.

INSET day

An INSET day will be held on **Monday 7 June.** This gives staff the opportunity to moderate our assessments for the Summer of 2021, and therefore the School will not be open to pupils. Further information about INSET days during the half term after Whitsun will be shared with you in due course.

Buildings

With the MUGA, 2G and 3G getting heavy use all day, we love it
take advantage of the new PE facilities now available at the School. The Canteen building and new classrooms are taking shape, and we look forward to occupying this space over the summer, to enable Kier, the contractors, to refurbish two more areas of the School in September.

Food App

The School has been a trailblazer for a brand new App ordering food in the canteen. Hundreds of pupils (and parents) have been involved in the pilot - the first School in Wales to use such a facility. There have been some challenges, but the

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

pupils, you, and the Canteen staff have been extremely patient as we have tried to respond to those challenges. From next week, any pupil at the School will be able to order lunch on the App.

Qualifications Wales Letter for Learners

Here is a letter to Year 11-13 pupils from Qualifications Wales outlining GCSE/AS/A Level grading arrangements for this year.... https://bit.ly/2Ru634S

LFT Tests

Thank you to the hundreds of you who help and remind your children to take the LFT tests every Monday and every Thursday.morning. This process is an additional tool to try to curb the spread
of Covid-19. Tests will not need to be taken over Half Term, but we
would want your children to resume the tests on Monday 7 June.

Thanks in anticipation of your your cooperation.

Headteacher

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk